



Canolfan PRIME Cymru PRIME Centre Wales



Ymchwil Iechyd
a Gofal Cymru
Health and Care
Research Wales



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

2020 - 2021
Adroddiad Blynyddol



Cynnwys

Rhagair gan Gyfarwyddwr y Ganolfan	2
Nodau ac amcanion Canolfan PRIME Cymru	3-6
Pwy yw pwy - cwrdd â'r tîm	7-8
Crynodeb o'r flwyddyn 2020-21	9-16
Ffeithlun metrigau craidd	
Cyflawniadau allweddol	
Uchafbwyntiau effaith	
Cynnwys y cyhoedd, ymgysylltu a chydweithio	19-20
Diweddariadau pecynnau gwaith	21-24
WP1. Heintiau ac ymwrthedd gwrthficrobaidd	
WP2. Gofal brys, gofal heb ei drefnu a gofal cyn yr ysbyty	
WP3. Diogelwch cleifion	
WP4. Gofal yn nes at gymunedau	
WP5. Gofal iechyd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn	
WP6. Gofal cefnogol a lliniarol	
WP7. Sgrinio, atal a diagnosis cynnar	
WP8. Iechyd y geg a gofal deintyddol sylfaenol	
Myfyrdodau ac edrych ymlaen	25

Rhagair

Cyfarwyddwr y Ganolfan, yr Athro Adrian Edwards

Rwy'n falch iawn o fod yn eich croesawu i gyd eto i ddarllen ein 6ed Adroddiad Blynyddol. Mae'r datblygiadau newydd ar gyfer Canolfan PRIME Cymru yn enwedig ar y cyllid ychwanegol ar gyfer.

Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol newydd Cymru, dan arweiniad yr Athro Carolyn Wallace ym Mhrifysgol De Cymru – ac wrth gwrs yr hyn rydym yn ei wneud i ddarparu ymchwil frys o ansawdd uchel sy'n mynd i'r afael â pandemig COVID-19.

Ni ddylid anwybyddu bod ein hamrywiaeth o ymchwil 'arall' sy'n berthnasol yn rhyngwladol ar draws y Pecynnau Gwaith hefyd yn parhau ac yn datblygu o nerth i nerth er gwaethaf heriau'r flwyddyn ddiwethaf.

Mae gwaith Carolyn gydag Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru yn cael ei ddisgrifio ar dudalen 3. Mae'n wych gweld hyn yn datblygu'n gyflym, gan adeiladu'n gyflym ers dechrau yn PRIME y llynedd, gyda cheisiadau am grantiau, ymchwil ar y gweill a thystiolaeth o effaith.

Mae ymchwil COVID-19 hefyd yn parhau mewn sawl maes. Mae cydweithwyr PRIME wedi bod yn llwyddiannus gyda nifer o geisiadau ymchwil pwysig yn y DU ynghylch COVID-19, a gwaith ymchwil a gweithredu ar y gweill.

Mae astudiaeth yr Athro Kate Brain ar ddiagnosis cynnar o ganser yn cael ei

ddisgrifio isod, gan archwilio agweddau'r cyhoedd at gyflwyno symptomau canser, a sut i leihau'r risg o ddiagnosis hwyr sydd wedi'i achosi gan effaith COVID-19 (tudalen 13).

Mae'r Athro Helen Snooks, Alan Watkins a chydweithwyr yn gweithio ar yr astudiaeth 'TRIM' i werthuso effaith protocolau brysbennu 999 wedi'u newid – maes allweddol arall o ofal sylfaenol ac achosion brys a brofodd newidiadau sylweddol ar benllanw effaith COVID-19 (tudalen 11).

Mae Helen ac Alan hefyd yn gweithio gydag Andrew Carson-Stevens a minnau ar yr astudiaeth 'EVITE' sy'n gwerthuso effeithiau – manteision, niwed a chostau – gwarchod. Mae'r Athro Clare Wilkinson, Dr Marlise Poolman ym Mhrifysgol Bangor, a'r Athro Annmarie Nelson ym Mhrifysgol Caerdydd yn parhau â'u gwaith gyda Llywodraeth Cymru i gyflymu'r broses o roi ymyrraeth CARIAD ar gyfer gofal lliniarol yn y cartref ar waith (tudalen 23).

Mae'r Athro Fiona Wood ac eraill ym Mhrifysgol Caerdydd yn gweithio gyda'n cyn-gydweithiwr PRIME, Dr Rhiannon Phillips, sydd bellach ym Met Caerdydd ar arolwg cenedlaethol o brofiadau cyhoeddus o'r pandemig, gan gynnwys risg canfyddedig, effaith ymddygiad a ffordd o fyw a goblygiadau diogelwch cleifion (tudalen 12).



Yr Athro Adrian Edwards

Gyda'i gilydd mae PRIME yn ymateb i sawl her yn y sector gofal sylfaenol a brys sy'n gysylltiedig â COVID-19 a'r rhai presennol y mae angen ymchwil hanfodol arnynt o hyd.

Ym mis Ionawr eleni, roeddem hefyd yn dymuno Ymddeoliad Hapus i'n cyfaill a'n cyd-ymchwilydd a fu gyda ni am amser hir, yr Athro Joyce Kenkre. Ymddeolodd Joyce o Brifysgol De Cymru ddiwedd mis Ionawr a bydd yn cael ei cholli gan ei chydweithwyr yno ac wrth gwrs pob un ohonom yn PRIME lle bu'n Gyfarwyddwr Cyswllt, yn arwain ar ran PDC, ers ein sefydlu yn 2015.

Yn wir, mae cydweithrediad Joyce â ni yn mynd yn ôl cyn hynny, yn Ysgol Ymchwil Gofal Sylfaenol flaenorol Cymru. Bydd ei harddull, ei gwybodaeth a'i doethineb yn fwlch y byddwn yn ei gael yn anodd ei enwi. Roedd rhwydweithio Joyce hefyd heb ei ail, gan roi nifer o gyfleoedd i ni gydweithio, gweithio gyda rhanddeiliaid a

chyflawni'r ymchwil a'r effaith yr ydym i gyd yn ymdrechu i'w gyflawni.

Yn olaf, mae Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru hefyd wedi'i sefydlu ers mis Mawrth 2021, yn cael ei lletya yng Nghanolan PRIME, ac yn cynnwys Natalie Joseph-Williams, Alison Cooper, Ruth Lewis, Micaela Gal a minnau yn y Tîm Craidd (tudalen 5).



Yr Athro Joyce Kenkre

Nod:

Gwella iechyd a lles pobl yng Nghymru trwy lunio ymchwil effaith uchel sy'n arwain y byd, sy'n berthnasol yn lleol mewn gofal sylfaenol a gofal brys.

Thema



Thema 1:

Gofal sylfaenol a gofal brys sy'n seiliedig ar werth

- WP1. Heintiau ac ymwrthedd gwrthficrobaidd
- WP2. Gofal brys, gofal heb ei drefnu a gofal cyn mynd i'r ysbyty
- WP3. Diogelwch cleifion



Thema 2:

Gofal iechyd a gofal cymdeithasol di-dor yn nes at y cartref

- WP4. Gofal yn nes at gymunedau
- WP5. Gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- WP6. Gofal Lliniarol a Chefnogol



Thema 3:

Lleihau anghydraddoldebau iechyd

- WP7. Sgrinio, atal a diagnosis cynnar
- WP8. Iechyd y geg a gofal deintyddol sylfaenol

Gweithgareddau ar draws y seilwaith:

- Ymgysylltu, cydweithio a chyd-gynhyrchu
- Cynnwys ac ymgysylltu â'r cyhoedd a chleifion
- Trosi gwybodaeth, ymgysylltu â rhanddeiliaid, a chael effaith
- Cyfathrebu, cyhoeddusrwydd, effaith a throsglwyddo gwybodaeth
- Datblygu portffolio ymchwil
- Datblygu methodolegol
- Datblygu gweithlu a meithrin gallu

Thema 1:

Gofal sylfaenol ac argyfwng yn seiliedig ar werth

- WP1. Heintiau ac ymwrthedd gwrthficrobaidd
- WP2. Gofal brys, gofal heb ei drefnu a gofal cyn yr ysbyty
- WP3. Diogelwch cleifion

- Roedd parafeddyg Prehospital yn cyflenwi gwrthfotigau mewn sefylltaliadau a amheuir
- Lleihau'r risg y bydd cleifion yn profi niwed sylweddol y gellir ei osgoi

- Parafeddygon mewn Gofal Sylfaenol
- Parafeddygon mewn cartrefi gofal

- Meddygon Teulu Mewn Adrannau Brys
- Rheoli symptomau cyffredin yn ystod dyddiau olaf bywyd
- Llawfeddygaeth cataract: buddion a niwed iechyd sy'n gysylltiedig â gweledigaeth ar lefel y claf
- Ailgynllunio'r gwasanaeth optometreg
- Rhagnodi gwrthfotigau mewn deintyddiaeth
- Ymwybyddiaeth a Chredoau Am Ganser
- Ymyriadau Cymru a Gwybodaeth Canser am Ddiagnosis Cynnar (WICKED)
- Helpwch Fi i Gadael: Datblygu cymorth penderfynu ar roi'r gorau i ysmygu
- Ymwybyddiaeth ac iechyd symptomau ysgyfaint (LUSH)

Thema 2:

Gofal di-dor a chymdeithasol yn nes at adref

- WP4. Gofal yn nes at gymunedau
- WP5. Gofal iechyd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- WP6. Gofal cefnogol a lliniarol

- Rhagnodi cymdeithasol

Thema 3:

Lleihau anghydraddoldebau iechyd

- WP7. Sgrinio, atal a diagnosis cynnar
- WP8. Iechyd y geg a gofal deintyddol sylfaenol

Croeso i wefan Ysgol Ymchwil Presgripsiynu Cymdeithasol Cymru (YPPCC/WSSPR)



Ysgol Ymchwil Rhagnodi Cymdeithasol Cymru (YPPCC)

Rhith ysgol Cymru gyfan ydy YPPCC sy'n ceisio datblygu methodoleg gwerthuso presgripsiynu cymdeithasol, gan adeiladu ar waith a gwblhawyd yn flaenorol gan Rwydwaith Ymchwil Presgripsiynu Cymdeithasol Cymru (RhYPCC/WSPRN).

Rhith ysgol Cymru gyfan ydy YPPCC sy'n ceisio datblygu methodoleg gwerthuso presgripsiynu cymdeithasol, gan adeiladu ar waith a gwblhawyd yn flaenorol gan Rwydwaith Ymchwil Presgripsiynu Cymdeithasol Cymru (RhYPCC/WSPRN).

Mae'r brwdfrydedd cynyddol dros bresgripsiynu cymdeithasol a'i botensial i ddylanwadu ar gyflenwi gwasanaethau ym maes gofal sylfaenol wedi bod tu hwnt i bob disgwyl ond mae datblygiad ei sail tystiolaeth a safonau ansawdd cadarn ar ei hôl hi (Lovell et al, 2017; Bickerdike et al, 2017).


Lleolir YPPCC yng Nghanolfan PRIME Cymru o dan y thema 'Gofal Di-dor yn Nes Adref' o fewn y pecyn gwaith 'Gofal yn Nes at Gymunedau'.

Nod: Datblygu methodoleg werthuso presgripsiynu cymdeithasol.

Amcanion:

- Defnyddio model ymchwil drosi (Cooksey, 2007; Weeks et al, 2013) i ddisgrifio a threfnu rhaglen aml gamau o ymchwil cymhwysol a gwerthusiad.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o ymchwil ac ymglymiad gyda dinasyddion a rhan-ddeiliaid.
- Trosi canfyddiadau ymchwil yn ymarfer, polisi ac addysg.
- Cynyddu capasiti ymchwil ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol ar draws sectorau.

Byddwn yn defnyddio dulliau cymysg, gan gynnwys dulliau consensws, i ddatblygu fframwaith methodoleg gwerthuso presgripsiynu cymdeithasol, adrodd am safonau i'w cyhoeddi, cytuno ar restr o dermau cytûn ac adnoddau hyfforddi ar gyfer ymchwilwyr.



Mae mwy o wybodaeth ar gael yn:
<http://www.wsspr.wales>



Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru

Mae COVID-19 wedi newid anghenion iechyd a gofal cymdeithasol pobl yng Nghymru'n ddramatig a hefyd y ffordd o ddarparu iechyd a gofal i ddiwallu'r anghenion hyn. Mae angen i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â pholisi ac arfer yn y maes hwn ddefnyddio ymchwil a thystiolaeth i lywio'u penderfyniadau, i reoli'r pandemig ac i ddeall effaith y pandemig ar systemau cyflenwi iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Bydd hyn yn sicrhau bod anghenion iechyd ac anghenion ehangach cymunedau a phobl yng Nghymru'n cael eu diwallu.

Bu nifer anferthol o astudiaethau ymchwil i COVID-19 yn ymwneud â dosbarthiad y clefyd, ffactorau risg, nodweddu'r cyflwr, triniaethau a brechlynnau ac, yn fwyfwy, yn ymwneud â chanlyniadau COVID-19 i unigolion a hefyd i gymunedau.

Fodd bynnag, er bod pwysigrwydd a gwerth ymchwil yn glir, nid yw dystiolaeth ymchwil bob amser ar gael yn rhwydd i'r bobl sydd ei hangen i gefnogi penderfyniadau (gan gynnwys llunwyr polisi, y cyhoedd, cyfarwyddwyr GIG Cymru, sefydliadau gofal cymdeithasol a'r trydydd sector a chlinigwyr). Mae hefyd yn gryn her sicrhau bod y sylfaen dystiolaeth ymchwil yn gyfoes ac yn berthnasol i Gymru. Dyma'r sbardun dros sefydlu Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru, â'r nod o wella ansawdd a diogelwch y gofal iechyd a'r gofal cymdeithasol a ddarperir yng Nghymru.

Ein rhaglen weit

Gyda chylch gwaith 'cwestiynau da, wedi'u hateb yn gyflym', rydyn ni'n gweithio gyda'n rhanddeiliaid i flaenoriaethu cwestiynau y mae'n bosibl eu hateb o'r dystiolaeth ymchwil, ac sy'n ein helpu ni i ddeall effaith y pandemig ar y systemau cyflenwi iechyd a gofal yng Nghymru, sicrhau ein bod yn diwallu anghenion iechyd ac anghenion ehangach mwyaf dwys cymunedau a phobl yng Nghymru, a'n helpu ni i adfer ac ailadeiladu. Caiff cwestiynau ymchwil eu blaenoriaethu yn ôl eu perthnasedd (i gyd-destun COVID-19 yng Nghymru ar hyn o bryd neu yn y dyfodol), eu pwysigrwydd i'r bwlch yn y dystiolaeth (graddfa, cost, canlyniad), buddion posibl, y potensial i'w trosi'n arfer a'r angen am wybodaeth amserol (brys).

Mae'r tîm craidd yn cydweithio â'n partneriaid sy'n arbenigwyr mewn adolygu, crynhoi a chynhyrchu adroddiadau ar dystiolaeth ymchwil sydd ar gael. Maen nhw'n cynnwys aelodau o Technoleg Iechyd Cymru, Canolfan Cymru ar gyfer Gofal sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth, Uned Arbenigol ar gyfer Tystiolaeth Adolygu, Banc Data SAIL, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Sefydliad Ymchwil Iechyd a Meddygol Bangor ar y cyd ag Economeg Iechyd a Gofal Cymru, ac Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gyda'n gilydd, ein nod yw darparu rhyw 50 o adolygiadau y flwyddyn, gan ateb y cwestiynau sydd â blaenoriaeth ar gyfer polisi ac arfer yng Nghymru wrth i ni ddiwallu galwadau'r pandemig a'i effeithiau.

Nod y Ganolfan Dystiolaeth ydy sicrhau bod y dystiolaeth orau gyfoes a pherthnasol ar gael yn rhwydd i'n rhanddeiliaid sydd a wnelo ag iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru, i ddarparu sail ar gyfer eu penderfyniadau. Mae'r acronym 'REGENERATE' yn crynhoi hyn. Mae'r hyn y byddwn ni'n ei weld yn y tonau COVID-19 dilynol yn gwneud hyn yn bwysicach ac yn fwy brys fyth.

- **RE**search (Ymchwil)
- **GENER**ation (Cynhyrchu)
- **A**ssimilation (Cymhathu)
- **T**ransfer (Trosglwyddo)
- **E**MBEDDING (Gwreiddio)

Pwy yw pwy: cwrdd â'r tîm

Strwythur llywodraethu

Mae PRIME yn gweithredu model arwain cynhwysol a llorweddol, gyda chyfraniad amlddisgyblaethol i'r grŵp arweinyddiaeth (Cyfarwyddwyr) a'r Gweithgor a chymorth i ymchwilwyr ar Ddechrau eu Gyrfa (ECR) mewn rolau arwain (e.e. Pecynnau Gwaith cyd-arweiniol).

Mae ein pwyslais ar Gymru gyfan yn amlwg yn ein Cyfarfodydd Blynyddol sy'n cylchdroi ym Mhrifysgol Caerdydd, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Bangor a Phrifysgol De Cymru (fe'i cynhaliwyd yn rhithwir yn 2020). Mae'r grŵp Arweinyddiaeth (cyfarwyddwyr) yn cael cymorth sylweddol a chyfeiriad strategol gan y grŵp "SUPER" (cleifion a'r cyhoedd), y Pwyllgor Llywio Cymru Gyfan (rhanddeiliaid, meysydd polisi a disgyblaeth), a'r Bwrdd Cyngori Rhyngwladol (academyddion o dramor a chyfranwyr PPI).

Mae Pwyllgor Llywio Cymru Gyfan Canolfan PRIME yn cyfarfod unwaith y flwyddyn ac mae'n cynnwys yr holl gyd-ymgeiswyr, arweinwyr pecyn gwaith ac arweinwyr thema/strategaeth trawsbynciol, cynrychiolwyr o'r trydydd sector ac aelodau lleyg. Mae'r Pwyllgor yn darparu cyngor a chyfeiriad ar gyfer strategaeth gyffredinol y Ganolfan, ynghyd â rôl graffu gefnogol, ac yn llywio ar gyfer blaenoriaethau'r llywodraeth, y cyhoedd a'r sector proffesiynol / gwasanaeth.






















Mae'r Gweithgor Gweithredol yn cyfarfod yn fisol ac mae'n cynnwys Cyfarwyddwyr Canolfannau, Arweinwyr Pecynnau Gwaith a staff ymchwil a gwasanaethau proffesiynol a ariennir gan arian craidd. Mae'r grŵp yn sicrhau cydweithrediad traws-brifysgol effeithiol o'r tîm tuag at gyflawni nodau PRIME.

Mae'r Bwrdd Cyngori Rhyngwladol yn darparu cyngor annibynnol, sylwadau beirniadol, cyd-destun rhyngwladol; Arbenigwyr rhyngwladol mewn ymchwil gofal sylfaenol, heb ei drefnu (cydweithrediaethau o Loegr, Gwlad Belg, Sweden, Canada, o ofal sylfaenol, iechyd y cyhoedd, deintyddol, nyrsio cymunedol, disgyblaethau gofal brys, a chyfranwyr PPI sydd â phrofiad rhyngwladol). Yn cyfarfod unwaith y flwyddyn.

Mae'r Grŵp SUPER yn ystyried cyfeiriad cyffredinol, blaenoriaethau cleifion a'r cyhoedd; Cynigion thema a phrosiect-benodol. Cafodd 15-20 o unigolion o'r boblogaeth gyhoeddus / gyffredinol yng Nghymru eu recriwtio.

Mae'r Grŵp SUPER wedi cyfarfod fwy na phedair gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac wedi cynnal busnes pwysig mewn gohebiaeth.

Mae Pwyllgor Llywio Cymru Gyfan

 Adrian Edwards Director, PRIME Professor of Primary Care, Cardiff University	 Joyce Kenkre Associate Director, PRIME Professor of Primary Care, University of South Wales	 Helen Snooks Associate Director, PRIME Professor of Health Services Research, Swansea University	 Clare Wilkinson Associate Director, PRIME Professor of General Practice, Bangor University	
 Harry Ahmed Infections & antimicrobial resistance Director, CP Academic Fellows Scheme, Cardiff University	 Kate Brain Screening, prevention & early diagnosis Professor of Health Psychology, Cardiff University	 Andrew Carson-Stevens Patient safety Reader in Quality Improvement & Patient Safety, Cardiff University	 Ivor Chestnutt Oral health & primary dental care Professor & Hon. Consultant in Dental Public Health, Cardiff University	 Bridie Evans Lay involvement & engagement Research Associate, Swansea University
 Natalie Joseph-Williams Patient-centred care Lecturer, Cardiff University	 Ruth Lewis Methodological innovation Senior Lecturer in Health Sciences Research, Bangor University	 Annmarie Nelson Supportive & palliative care Marie Curie Professor of Supportive and Palliative Care, Cardiff University	 Marlise Poolman Supportive & palliative care Senior Clinical Lecturer, Bangor University	 Alison Porter Emergency, unscheduled and pre-hospital care Associate Professor, Swansea University
 Emma Thomas-Jones Clinical trials Senior Trials Manager in Infections & devices, Cardiff University	 Carolyn Wallace Social prescribing & third sector; Care closer to communities Professor of Community Health & Care Sciences, University of South Wales	 Angela Watkins Communications & operations Cardiff University	 Fiona Wood Patient-centred care Reader, Cardiff University	 Gideon Calder Social policy Senior Lecturer, Public Health, Policy and Social Sciences, Swansea University
 Joseph Carter Third sector member Head of British Lung Foundation, Wales	 Antony Chuter Lay member Chair, Patient Liaison Committee, British Pain Society	 Chris Jones Welsh Government representative Deputy Chief Medical Officer/ Medical Director NHS Wales	 Emma Lane Community pharmacy Senior Lecturer in Neuropharmacology Cardiff University	 Rachel North Community optometry Professor of Vision & Optometry Sciences, Cardiff University
 Mark Llewellyn Welsh Institute for Health & Social Care Professor of Health & Care Policy, University of South Wales	 Nigel Rees Ambulance services Head of Research & Innovation, Welsh Ambulance Services NHS Trust	 Martin Rolph Lay member & SUPER group representative	 Steve Smith Social policy Professor of Political Philosophy and Social Policy, University of South Wales	 Marjorie Weiss Community pharmacy Professor of Pharmacy Practice, Cardiff University
 Mark Williams Industrial collaboration Professor of Cardiopulmonary Science, University of South Wales	 John Wynn-Jones Rural general practice WONCA Working Party on Rural Practice			

Pwy ydym ni

Grwp Gweithredol



Bwrdd Cynggori Rhyngwladol

- Dr Sibyl Anthierens**
Primary Health Care Sociologist,
University of Antwerp, Belgium
- Carolyn Canfield**
Independent Citizen-Patient & Adjunct Professor
University of British Columbia, Faculty of Medicine, Canada
- Professor David Conway**
Professor of Dental Public Health,
University of Glasgow, Scotland, UK
- Professor Jeremy Dale**
Professor of Primary Care,
University of Warwick, England, UK
- Professor Martin Dawes**
Royal Canadian Legion Professor,
University of British Columbia, Canada
- Dr France Légaré**
Research Axis of Population Health and Practice-Changing Research,
CHU de Québec - Université Laval, Canada
- Professor Michael Preston-Shoot**
Professor Emeritus (Social Work),
University of Bedfordshire, England, UK
- Professor Fiona Ross CBE**
Professor of Research, Centre for Health and Social Care Research
Kingston University, St George's University of London, England, UK
- Professor Niro Siriwardena (Chair)**
Professor of Primary & Prehospital Health Care,
University of Lincoln, England, UK
- Richard Stephens**
Consumer Lead, Chair Consumer Forum
National Cancer Research Institute, UK

Metrigau Craidd

Cyfnod adrodd: 2020/2021



Gwobr seilwaith Ymchwil lechyd a Gofal Cymru i'r grŵp



Cyllid
uniongyrchol
a ddyfarnwyd

£0.9m

Swyddi a
grëwyd drwy
gyllid
uniongyrchol



Grantiau a enillwyd yn ystod y cyfnod adrodd

Grantiau a enillwyd	Dan arweiniad y grŵp	Grŵp yn cydweithio
Nifer	16	8
Gwerth	£5.2m	£2.5m
Cyllid i Gymru	£3.2m	£0.5m
Cyllid i grŵp	£2.9m	£0.1m
Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer Cymru	7	5
Swyddi ychwanegol a grëwyd ar gyfer grŵp	6	2



Nifer y cyhoeddiadau



Nifer y digwyddiadau
ymgysylltu â'r cyhoedd



Nifer y cyfleoedd i'r
cyhoedd gymryd rhan

Cyflawniadau allweddol

Cefnogi'r ymateb ymchwil i Covid-19

Penodi Cyfarwyddwr i Ganolfan Dystiolaeth COVID-19 newydd Cymru

Mae Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru wedi penodi'r Athro Adrian Edwards yn Gyfarwyddwr Canolfan Dystiolaeth COVID-19 newydd Cymru.

Mae'r ganolfan sydd werth £3 miliwn, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr, yn cael ei chreu ar ran Llywodraeth Cymru i ddefnyddio canfyddiadau ymchwil ledled y DU a'r byd i ateb cwestiynau allweddol a chynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau yng Nghymru. Gallai hyn gynnwys mynd i'r afael ag effeithiau hir dymor y pandemig ac ymchwilio i heriau fel rheoli heintiau a chadw pellter cymdeithasol, canlyniadau unigedd ac effeithiau'r amhariad economaidd ar iechyd.

Mae disgwyl i'r Ganolfan Dystiolaeth newydd, sydd wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd, agor yn ystod yr wythnosau nesaf gyda thîm ymroddedig o ymchwilwyr allweddol. Bydd y ganolfan yn galluogi mynediad cyflym i ganfyddiadau a thystiolaeth ymchwil ryngwladol allweddol, er mwyn i Lywodraeth Cymru a GIG Cymru allu gwneud penderfyniadau. Bydd hefyd yn caniatáu i astudiaethau ymchwil cyflym a phenodol gael eu cynnal ar lefel Cymru, gan gynnwys ar COVID hir.

Bydd yr Athro Edwards, sy'n athro ymarfer cyffredinol ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn feddyg teulu rhan-amser yng Nghwm-brân, yn goruchwilio'r ganolfan, a fydd yn defnyddio arbenigedd academyddion a gwyddonwyr ledled Cymru. Mae gan yr Athro Edwards 25 mlynedd o brofiad ym maes ymchwil ac mae'n Gyfarwyddwr Canolfan PRIME Cymru, canolfan Cymru gyfan ar gyfer ymchwil gofal sylfaenol a brys. Mae ei brif ddiddordebau ymchwil yn cynnwys ansawdd a diogelwch gofal iechyd a gweithredu penderfyniadau a rennir.

Dywedodd yr Athro Adrian Edwards:

"Mae angen i ni ddefnyddio ymchwil a thystiolaeth wrth reoli'r pandemig. Mae angen i ni hefyd ddeall effaith y pandemig ar y systemau darparu iechyd a gofal ledled y wlad a sut yr ydym yn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion iechyd ac anghenion ehangach cymunedau a phobl yng Nghymru.


"Y flaenoriaeth gyffredinol yw i ymchwil gael ei chynnal yn gyflym ond yn drylwyr, ei chyfuno a'i gwneud ar gael ac yn weithredol i glinigwyr, y cyhoedd, llunwyr polisi a rhanddeiliaid eraill. Mae'r hyn a welwn yn yr ail don bellach yn gwneud hyn yn bwysicach ac yn fwy brys."

Cyfrannu at y canllawiau arbenigol

Mae nifer o aelodau o PRIME (Ahmed, Carson-Stevens, Cooper, Edwards) wedi cyfrannu at ymateb y Sefydliad Siartredig ar gyfer Ergonomeg a Ffactorau Dynol i gefnogi sefydliadau gofal iechyd i gadw cleifion yn ddiogel yn ystod y pandemig, gan gynghori'n arbennig ar ganllawiau arbenigol i gefnogi sefydliadau gofal iechyd i gadw diogelwch cleifion, gan gynnwys:

- Brechu cenedl: Deg ffactor dynol ac egwyddorion ergonomig
- Canllawiau i helpu i gynllunio gweithdrefnau gwaith effeithiol y gellir eu defnyddio ar gyfer timau iechyd a gofal cymdeithasol.

I gefnogi agenda darparu ymchwil i frechlynnau COVID-19 yng Nghymru, mae Dr Carson-Stevens, Dr Emma Thomas-Jones a'r Athro Kerry Hood wedi bod yn aelodau o Grŵp Cyflawni Ymchwil Brechu COVID-19 Cymru yn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.



Roeddent yn gyd-dderbynwyr Gwobr Partneriaeth Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda Diwydiant ar gyfer Treial Brechlyn COVID-19 Rhydychen-AstraZeneca yng Nghymru a ddyfarnwyd gan MediWales.

Cefnogi'r ymateb ymchwil i Covid-19

What TRIage model is safest and most effective for the Management of 999 callers with suspected Covid-19 neu TRIM

Mae astudiaeth newydd gan Brifysgol Abertawe sy'n ystyried y ffordd orau i wasanaethau ambiwlans ymdrin â galwadau Covid-19 tybiedig newydd ennill cymorth ariannol mawr.

Rhywbeth newydd ac anrhagweledig yw Covid-19, i gymunedau ac unigolion. Bu cynnydd mawr yn nifer y galwadau brys am ambiwlans a oedd yn gysylltiedig â Covid-19 ar adegau yn ystod y pandemig. Mewn rhai ardaloedd, treblwyd nifer y galwadau.

Pe bai pob claf wedi mynd i'r ysbyty, byddai adrannau argyfwng a gwasanaethau cleifion mewnlod wedi cael eu gorlwytho'n llwyr. Ond pe bai'r cleifion anghywir yn cael eu gadael gartref, gallai'r canlyniadau fod yn drychinebus.

Nawr, yn yr astudiaeth gydweithredol hon dros 12 mis, bydd tîm o Abertawe mewn partneriaeth â gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru, dwyrain Lloegr a dwyrain canolbarth Lloegr yn dadansoddi data a gesglir o wasanaethau ambiwlans ledled y DU. Bydd y tîm yn gweld sut ymatebir i alwadau, ochr yn ochr â chanlyniadau i gleifion, gan gynnwys nifer y marwolaethau; nifer y bobl sy'n cael eu derbyn gan ysbytai ac unedau therapi dwys; nifer y bobl sy'n mynd i adrannau argyfwng; a nifer y bobl sy'n cael diagnosis o Covid-19.



Yr Athro Alan Watkins, sy'n Athro Ymchwil e-dreialon, a'i gydweithiwr Helen Snooks o Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe sy'n arwain yr astudiaeth, sef What TRIage model is safest and most effective for the Management of 999 callers with suspected Covid-19 neu TRIM.

Yr Athro Snooks yw arweinydd Abertawe Canolfan PRIME Cymru, sy'n ymchwilio i ofal sylfaenol a gofal brys er mwyn helpu i wella iechyd a lles yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Mae'n credu y bydd yr astudiaeth yn cryfhau'r cysylltiadau ymchwil presennol rhwng PRIME a gwasanaethau ambiwlans y DU.

Meddai: "Pan geir galwad 999, pe na bai'r cleifion cywir yn cael ambiwlans neu pe baent yn cael eu gadael gartref, gallent gael niwed neu farw hyd yn oed. Ond ni ellir mynd â phob claf i'r ysbyty neu ni fyddai'r gwasanaethau'n gallu ymdopi.

"Rydym yn gwybod bod gwasanaethau ambiwlans gwahanol yn defnyddio modelau gwahanol i frysbenno galwyr, ond prin yw'r wybodaeth am ba fodel brysbenno yw'r un mwyaf diogel ac effeithiol yn ystod pandemig. Dyma'r cwestiwn rydym am ei ateb."

Esboniodd yr Athro Watkins y bydd yr astudiaeth yn ystyried y modelau brysbenno sydd wedi'u defnyddio mewn

canolfannau galwadau ac yn y maes yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn ystod pandemig 2020.

Meddai: "Yn ogystal â chael gafael ar y canlyniadau i gleifion, byddwn hefyd yn cyfwrdd â staff y GIG fel y gallwn ddeall eu profiadau a'u pryderon yn well. Rydym yn bwriadu cyflwyno ein casgliadau cyn gynted â phosib er mwyn helpu i roi'r model gorau posib ar waith ar gyfer brysbenno a thrin galwyr 999 â symptomau COVID-19 tybiedig."

Dyfarwyd cyllid gwerth mwy na £350,000 i'r astudiaeth drwy alwad dreigl UKRI-DHSC i ymateb yn gyflym i COVID-19, mentr sy'n cefnogi ymchwil amserol a chanddi effaith ar iechyd y cyhoedd.

Cefnogi'r ymateb ymchwil i Covid-19

Astudiaeth COPE Cymru

Mae deall effaith pandemig COVID a pholisiau cysylltiedig ar iechyd corfforol a lles seicolegol yn flaenoriaeth uchel i'r llywodraeth ac asiantaethau iechyd cyhoeddus. Mae'r ffordd mae pobl yn ymateb i'r pandemig, ac yn cael eu heffeithio gan y pandemig, yn cael ei ddylanwadu gan amrywiaeth o ffactorau seicolegol a demograffig-gymdeithasol.

Mae angen deall y rhain wrth gynllunio a gweithredu ymriadau iechyd y cyhoedd er mwyn lleihau niwed ar draws y boblogaeth.

Wrth wneud hynny, byddwn yn cyfrannu at nodau strategol Llywodraeth Cymru o atal afiechyd gan ganolbwyntio ar ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o wella iechyd a lles yn unol â Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol a Llywodraeth Cymru 'Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2019'.

Mae'r prosiect hefyd yn cyd-fynd â datganiadau Prif Swyddog Meddygol Cymru sy'n ymwneud â phwysigrwydd ymchwil er mwyn dysgu o ddigwyddiadau'r gorffennol i atal pandemigau yn y dyfodol a deall effeithiau ehangach COVID-19 ar iechyd a chymdeithas yng Nghymru, gan gynnwys deall effeithiau ar anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru (Diogelu ein Hiechyd, Adroddiad y Prif Swyddog Meddygol, 2021).



Astudiaeth carfan hydredol yw astudiaeth COPE Cymru sy'n defnyddio cyfuniad o ddulliau ymchwil i ddeall agweddau, credoau ac ymddygiad carfan fawr o'r cyhoedd yng Nghymru mewn ymateb i bandemig y coronafeirws. Ym mis Mawrth/Ebrill 2020 cynhaliodd ein tîm rhyngddisgyblaethol arolwg ar-lein o 8,942 o bobl a recriwtiwyd drwy HealthWise Wales (llwyfan recriwtio cyhoeddus ar-lein ar gyfer ymchwil iechyd). Cynhaliwyd arolygon a chyfweiliadau dilynol. Derbyniodd tîm COPE Cymru grant gan Ser Cymru i gefnogi ymchwil ar y prosiect hwn rhwng Awst 2020 a Mawrth 2021.

Mae tîm COPE Cymru yn cynrychioli cydweithrediad amlddisgyblaethol rhwng Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd yn ogystal â phartneriaid lleig fel yr argymhellwyd gan Safonau Cynnwys y Cyhoedd y DU. Y prif gydweithwyr dan sylw yw Dr Natalie Joseph-Williams, Dr Anna Torrens-Burton a'r Athro Fiona Wood.

Ers sefydlu'r garfan yng Ngwanwyn 2020, rydym wedi cwblhau'r gwaith o gasglu data ar gyfer llinell sylfaen, gwaith dilynol 3 mis a gwaith dilynol 12 mis.

Mae ein dadansoddiad yn parhau. Rydym wedi cyhoeddi papur protocol astudio fel erthygl mynediad agored ar Figshare.

Mae nifer o bapurau eraill ar ffurf drafft neu wedi'u cyflwyno i'w cyhoeddi. Mae'r papurau dan arweiniad cydweithwyr PRIME yn cynnwys: petruso mewn perthynas â brechlynnau a diogelwch cleifion mewn gofal sylfaenol a phrofiadau o ddefnyddio gwasanaethau'r GIG yn ystod y cyfnod clo.

Gwahoddwyd aelodau staff PRIME hefyd i roi cyflwyniadau yng nghyfarfod y Gymdeithas Gofal Sylfaenol Academiaidd ar i) pryderon diogelwch cleifion yn ystod y pandemig a ii) agweddau'r cyhoedd tuag at y brechlyn COVID-19.

Mae tîm COPE Cymru wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf a sesiynau briffio am astudiaethau i Lywodraeth Cymru a Iechyd Cyhoeddus Cymru. Bydd y rhain yn cael eu hymestyn wrth i'n dadansoddiad fynd yn ei flaen.

For example, our work on vaccination hesitancy is identify key reasons for vaccine refusal and could help to improve communication around the vaccine to improve uptake.

Further information is available at: <https://copestudy.yolasite.com>



Canser yw prif achos marwolaethau yn y DU, gyda chanfod, sgrinio ac atal yn seiliedig ar symptomau yn estyll pwysig yn arfau iechyd cyhoeddus a allai gael eu taflu oddi ar y cledrau gan COVID-19. Mae'r rhan fwyaf o ganserau'n cael diagnosis symptomatig drwy ofal sylfaenol ac mae rhaglenni sgrinio cenedlaethol y DU yn cyfrif am 5% o'r holl ddiagnosisau canser bob blwyddyn.

Yn ystod cyfnod clo cyntaf y DU, bwriad atal rhaglenni sgrinio canser, osgoi gwasanaethau clinigol hanfodol yn orfodol, a neges llywodraeth y DU i "aros adref, diogelu'r GIG, achub bywydau" oedd rheoli lledaeniad COVID-19. Fodd bynnag, efallai eu bod wedi anfon neges gref i'r cyhoedd y gall "canser aros".

Dyfarwyd cyllid i ni gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (drwy Ymchwil ac Arloesedd y DU) i asesu effaith COVID-19 ar agweddau cyhoeddus y DU at ganser, gan weithio'n agos gyda Cancer Research UK, Canolfan Ymchwil Treialon Prifysgol Caerdydd a Chanolfan DECIPHer, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Coleg y Brenin Llundain a Phrifysgol Surrey.

Cynhaliwyd arolwg ar-lein gan Cancer Research UK a HealthWise Wales gyda dros 7,500 o gyfranogwyr, yn holi am geisio cymorth yn dilyn symptomau, sgrinio am ganser ac ymddygiadau iechyd yn ystod cyfnod clo cyntaf y DU (Mawrth-Awst 2020). Cynhaliwyd cyfweiliadau ansoddol hefyd gyda 30 o gyfranogwyr i archwilio eu hagweddau a'u hymddygiad tuag at geisio cymorth yn ystod y cyfnod hwn.

Gwelsom nad oedd bron i hanner y bobl â symptomau canser posibl wedi cysylltu â'u meddyg teulu yn ystod ton gyntaf y pandemig. Roedd symptomau canser posibl yn gyffredin yn ystod y don gyntaf, gyda 40.1% o gyfranogwyr yr arolwg (3,025 o bobl) yn dweud eu bod wedi profi o leiaf un symptom posibl. Roedd pryder am wastraffu amser gweithwyr gofal iechyd proffesiynol (15.4%), poeni am roi straen ychwanegol ar y GIG (12.6%), peidio â bod eisiau cael ei ystyried yn rhywun sy'n gwneud ffwddan (12%), anhawster gyda mynediad at wasanaethau gofal iechyd (10.3%) a phoeni am ddal COVID-19 (9.6%) yn rhwystrau allweddol i geisio cymorth meddygol.

Disgrifiodd cyfranogwyr y cyfweiliadau i roi pryderon iechyd o'r neilltu er mwyn osgoi rhoi pwysau ar y GIG. Mynegwyd ofn ganddynt ynghylch mynychu gwasanaethau gofal sylfaenol – ac ofnau mwy ynghylch mynychu gofal eilaidd yn ymwneud â dal neu drosglwyddo'r feirws. Fodd bynnag, disgrifiodd y rhai a fynychodd ymgynghoriadau wyneb yn wyneb eu bod yn teimlo'n "ddiogel" ac yn "saff" wrth wneud hynny.

Galwodd ein papur briffio polisi a'n datganiad i'r wasg ym mis Chwefror eleni am ymgyrchoedd cydgysylltiedig ledled y

DU i dynnu sylw at y ffaith bod gwasanaethau'r GIG ar agor yn ddiogel i unrhyw un sydd â symptomau anarferol neu barhaus. Rhannwyd y papur briffio polisi gyda dros 40 o sefydliadau rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys llywodraethau'r DU, Cymru a'r Alban, sefydliadau'r GIG a sefydliadau'r trydydd sector ledled y DU.

Cawsom sylw helaeth yn y cyfryngau gan gynnwys cyfweiliad â'r Athro Kate Brain, arweinydd yr astudiaeth, ar Good Morning Britain ar ITV. Amlygwyd y canfyddiadau gan y dylanwadwr cyfryngau cymdeithasol amlwg Deborah Jones (@bowelbabe) a chawsant sylw yn The Express, The Guardian, The Telegraph, The Times Online, BBC online, The Sun, The Daily Mail, ITV Wales, Metro, Evening Standard, a Sky News.

Gwahoddwyd ymchwilwyr CABS hefyd i gyflwyno mewn cynadleddau cenedlaethol a rhyngwladol blaenllaw, gan gynnwys

Cyfes Rithwir Diagnosis Cynnar Cancer Research UK, y Rhwydwaith Rhyngwladol Canser a Gofal Sylfaenol a'r Gymdeithas Gofal Sylfaenol Academaidd.

Dywedodd y prif ymchwilydd, yr Athro Kate Brain: "Mae tîm CABS yn falch o fod wedi cyflawni'r allbynnau astudio cyntaf i'w rhyddhau gan y cyhoedd o fewn chwe mis i ddechrau astudio, a'u gweld yn cael eu trosi'n gyflym i ymgyrchoedd a mentrau cenedlaethol sy'n annog pobl i fynd at eu meddyg teulu gyda symptomau canser posibl.

Galluogwyd yr arian grant mawreddog hwn gan ein hanes o ragoriaeth mewn ymchwil Sgrinio, Atal a Diagnosis Cynnar canser a gydnabyddir yn rhyngwladol, yn ogystal â'r seilwaith a gynigir gan Ganolfan PRIME, Canolfan Treialon Ymchwil ac HealthWise Cymru a ariennir gan Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru."



Os ydych chi'n credu bod rhywbeth o'i le, galwch eich meddyg teulu.
Peidiwch ag aros. Peidiwch â phoeni. Gwiriwch ef.

If you feel something isn't right, call your GP - they want to hear from you.
Don't put it off. Don't worry. Get checked.

RAF Eluan Dafydd / Registered Charity No. 107290

CANCER RESEARCH WALES
YMCHWIL CANCER CYMRU



Sylw yn y cyfryngau

sky Sky News @SkyNews

"I actually feel very safe in my hospital."

Columnist and podcaster, Deborah James urges people with potential symptoms of cancer to seek medical help, even if they have concerns about visiting hospital due to #COVID19 fears.

#Coronavirus updates: trib.al/zs8w6NX

Visit news.sky.com

HealthWiseWales @HealthWiseWales

*@CTRCardiffUni, @CR_UK & @CABSCovid19 have created an online survey asking people about their health during #lockdown. Data suggests that people from #BAME backgrounds have been the most affected. Take part and help researchers discover why buff.ly/39WyHQG

BBC Matt Home News Sport Weather

NEWS

Home Coronavirus Brexit UK World Business Politics Tech Science Health

Health

Covid: Half with cancer signs didn't contact GP in first wave

By Rachel Schraer
Health reporter

25 February | Comments

Coronavirus pandemic



Almost half of people with potential cancer symptoms did not contact their GP during the first wave of the pandemic, a survey suggests.

Symptoms left unchecked included coughing up blood, lumps and changes to the appearance of moles.

NHS figures showed a fall in referrals to cancer services last spring.

But this study, of almost 8,000 people, captures the fall in people contacting their GP in the first place.

The team that carried out the study, from Cardiff University and Cancer Research UK, said this raised concerns that people could be diagnosed later - and so be less likely to be treated successfully and recover.

Cancer

This article is more than 5 months old

Nearly half with cancer symptoms in the UK did not see GP in first wave of pandemic

People avoided seeking medical help during first lockdown because they did not want to burden NHS

- Coronavirus - latest updates
- See all our coronavirus coverage

9:45 Denis Campbell Health policy editor
Thu 25 Feb 2021 07:01 GMT

▲ The survey of 7,543 adults across the UK found 3,025 developed at least one possible sign of cancer between March and August last year. However, 1,355 of them did not contact their GP. Photograph: Rui Vieira/PA

Almost half of those who had a potential symptom of cancer during the pandemic's first wave did not see a GP, even when they coughed up blood or developed a lump, a new study shows.

People held off seeking medical help because they did not want to waste health professionals' time, add to the pressure on the NHS or go to hospital in case they caught Covid-19.

Many people's behaviour was influenced by the government's message during the first lockdown last spring to "stay home, protect the NHS, save lives", researchers found.

Western Mail Date: 25 February 2021 Page: 5

Stay-at-home advice sent message that cancer can wait - expert

THE stay-at-home messaging employed by the government during the coronavirus crisis could have "sent a strong message to the public that cancer can wait", a Cardiff University expert has warned.

The comments come after a new study found that a significant number of people with potential symptoms of cancer did not seek medical help during the first six months of the pandemic.

Some did not even seek care for worrying signs like coughing up blood or an unexplained lump or bump.

Experts called for a concerted effort to remind the public that NHS services are open safely.

The NHS has already been running campaigns encouraging people to seek help for potential cancer symptoms.

It has raised particular concerns about a dip in the number of people being treated for lung cancer, warning that thousands fewer are being treated than would be expected.

A UK-wide survey found that nearly half of people who experienced possible cancer symptoms between March and August last year did not contact their GP.

Researchers from Cardiff University and Cancer Research UK examined the experiences of 7,543 people.

A total of 40.1% of participants say they had experienced one potential symptom.

And among this group, 44.8% of people did not contact their GP.

Three in 10 of those who were coughing up blood did not seek help, nor did 41% with an unexplained lump or bump or swelling.

And 58.6% of those who noticed the change in appearance of a mole - a key sign of skin cancer - did not seek help.

Worry about wasting health-care professionals' time, concern about putting extra strain on the NHS, not wanting to be seen as someone who makes a fuss, difficulty with access to health-care services and worry about catching Covid-19 were reported as barriers to seeking medical help among the participants.

A policy paper from the university and Cancer Research UK highlights how there were 19% fewer urgent cancer referrals - around 350,000 - between March and November in 2020 compared with the previous year.

Principal investigator Professor Kate Brain, a health psychologist from Cardiff University's School of Medicine, said people had "put their health concerns on hold to protect the NHS".

"This suggests the government's message to 'stay home, protect the NHS, save lives' - which was intended to control the spread of Covid-19 - also sent a strong message to the public that cancer can wait," she said.

Profedigaeth yn ystod COVID-19: Astudiaeth genedlaethol o brofiadau pobl mewn profedigaeth a'r effaith ar wasanaethau profedigaeth

Cynhaliwyd yr arolwg cyntaf ledled y DU yn archwilio profiadau a chefnogaeth profedigaeth yn 2020 gan ymchwilyr ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Bryste, i edrych ar brofiad y bobl o brofedigaeth yn ystod pandemig COVID-19.

Mae'r ymchwilyr, gan gynnwys tîm o Ganolfan Ymchwil Gofal Lliniarol Marie Curie, yn cynnal yr ymchwil i roi llais i brofiadau pobl sydd mewn profedigaeth yn y DU oherwydd unrhyw achos ers 16 Mawrth.

Ar Fehefin 15fed 2021 lansiodd Comisiwn y DU ar Brofedigaeth i nodi argymhellion ar gyfer gwella'r cymorth i bobl mewn profedigaeth.

